# COFNODION PWYLLGOR Y TY

**Dyddiad**: 6 Ebrill 2006
**Amser**: 9.00am
**Lleoliad**: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'n bresennol**:

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwyr
Jane Hutt, AC Llafur
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Nerys Evans, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau
Nadia Cummins, Cynghorydd Mynediad at Wybodaeth
Catherine Morris, Gweithredwr Seneddol
Gareth Brydon, Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

**Ymddiheuriadau :**

Janice Gregory, AC Llafur

**Yn arsylwi :**

Daniel Collier, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
John Grimes, Rheolwr y Rhaglen Newid Strwythurol
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

## Cyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ac Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol, a oedd yn arsylw'r cyfarfod.

## 1 Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau sy'n codi ohonynt

1.1 Nododd yr Aelodau y byddai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2006 yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r Aelodau eu cymeradwyo ac erbyn 4 Mai 2006 fan bellaf.

1.2 Camau a gododd o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-05-06(p1)

**Is-grwp Adeiladau'r Cynulliad**

Dywedodd Lorraine Barrett mai hi, Peter Black, William Graham ac Owen John Thomas fydd Aelodau'r is-grwp. Cytunodd y grwp yn anffurfiol mai hi fyddai'r Cadeirydd. John Grimes fydd yn darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i'r cyfarfodydd. Disgwylir cynnal y cyfarfod ffurfiol cyntaf ar ôl toriad y Pasg.

**Cytunodd yr Aelodau y dylai'r is-grwp ystyried system i aelodau'r cyhoedd ofyn am gael gweld Aelod Cynulliad eu hetholaeth yn y Senedd.**

Dywedodd Nerys Evans y bydd yr Is-grwp Arlwyo yn ystyried y problemau ciwio yn y bwyty.

## 2 Eitemau i'w trafod

2.1 Cynllun parhad busnes – blaenoriaethau HC(2)-05-06(p2)

Bu'r Pwyllgor yn trafod papur yn amlinellu trefniadau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer ymdopi ag unrhyw achos o darfu mawr a allai ei atal rhag cyflawni ei amcanion allweddol. Roedd y papur yn ceisio arweiniad y Pwyllgor o ran blaenoriaethau os bydd argyfwng o'r fath yn codi.

Yn ystod y drafodaeth, nododd Aelodau y cafodd Neuadd y Sir ei dewis rhag ofn na fydd y Senedd ar gael ar gyfer cynnal Cyfarfodydd Llawn. Gofynnwyd sut y byddai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ymdopi pe byddai staff y sector cyhoeddus a staff y Gwasanaeth Seneddol yn cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol. Dywedodd Clerc y Cynulliad nad oedd y cynlluniau parhad yn darparu ar gyfer y posibiliadau hyn yn digwydd ar yr un pryd, er y byddai swyddogion yn ystyried posibilrwydd o’r fath.

Cytunodd yr Aelodau ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y papur.

2.2 Caffael – gweithdrefnau gwyro HC(2)-04-06(p3)

Cyflwynwyd papur i Aelodau yn cynnig gweithdrefnau y mae'n bosibl y gall Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad eu dilyn pan fydd galw am wyro oddi wrth weithdrefnau caffael arferol.

Nododd y Pwyllgor fod gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a'r Llywodraeth lawlyfrau caffael ar wahân er eu bod bron yn union yr un peth.

**Cytunodd yr Aelodau ar y weithdrefn a nodir yn y papur ac y dylai Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad wyro oddi wrth y drefn 'arferol' dim ond pan fydd achos unigol yn gwarantu gwneud hyn.**

2.3 Cynllun Cyhoeddi Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-04-06(p4)

Cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor yn cynnig diwygio cynllun cyhoeddi presennol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceisiwyd barn yr Aelodau ar y cynllun cyhoeddi drafft mewn cysylltiad â Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

Nododd Pwyllgor y Ty bod y cynllun wedi'i ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, er y bydd gan Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cynlluniau eu hunain.

## 3 Eitemau i'w nodi

3.1 <u>Adroddiad Cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-05-06(p5)</u>

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad. Trafododd yr Aelodau yn fras y ddarpariaeth o daliadau goramser a'r tanwariant a ragwelwyd yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn erbyn y gyllideb a nodwyd.

**Camau i'w cymryd: Steven O’Donoghue**

<u>Adroddiad Misol Adnoddau Dynol HC(2)-05-06(p6)</u>

Nododd yr Aelodau yr adroddiad.

Cododd y Llywydd fater mewn cysylltiad ag adnoddau dynol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Mynegodd bryder ynglyn â hysbysebu swyddi gwag a lefelau staffio presennol. Dywedodd ei fod yn bwysig nad yw Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn gweithredu ar sail rhagdybiaeth o’r hyn y bydd Comisiwn y Cynulliad yn ei benderfynu o ran recriwtio.

3.2

Dywedodd Clerc y Cynulliad y byddai'n rhaid cyflwyno cynigion i gynyddu nifer y staff i'r Pwyllgor. Awgrymodd y dylai baratoi papur ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar staffio a recriwtio yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Dywedodd y Llywydd ei fod yn fodlon ar yr ymateb hwn.

**Camau i'w cymryd: Paul Silk**

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Aelodau yn fodlon ar yr hysbyseb ar gyfer y 2 swydd wag gradd 7 yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau. Cytunodd Aelodau y dylent gael eu llenwi.

Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o gyflogi staff dros dro. Nododd Aelodau ei fod yn rhatach cyflogi staff dros dro yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy asiantaeth recriwtio. Cefnogwyd y dull hwn o ddod o hyd i staff dros dro. Cytunodd Aelodau y byddai'n ddefnyddiol cynnwys data ar staff dros dro a gyflogir gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad yn yr adroddiad Adnoddau Dynol.

Trafododd yr Aelodau arfer gorau yng nghyd-destun hysbysebu swyddi gwag Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn allanol. Dywedodd Clerc y Cynulliad y cyflwynir papur yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd: Mike Snook**

Cyfeiriodd Clerc y Cynulliad at gyfran y staff sy'n absennol oherwydd salwch ymhlith staff diogelwch. Dywedodd fod y rheolwyr yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater.

Dangosyddion yn erbyn targedau HC(2)-05-06(p7)

Nododd yr Aelodau yr adroddiad.

Dywedodd Clerc y Cynulliad fod nifer y bobl sy'n ymweld â'r Cynulliad er mwyn gwylio'r Cyfarfod Llawn wedi treblu. Ychwanegodd hefyd fod Cofnod y Trafodion ddydd Mercher yn cael ei gyhoeddi yn gynt na'r targed.

Dywedodd y Llywydd efallai y bydd angen ailystyried y polisi ar gyfieithu Cofnod y Trafodion, yn arbennig os, ar ôl 2007, cynhelir y Cyfarfod Llawn yn amlach. Gofynnwyd i Gwen Parry baratoi papur ar bolisi a chost darparu cyfieithiad gair-am-air o drafodion y Cyfarfod Llawn a Phwyllgorau.

Dywedodd William Graham yr hoffai iddo gael ei nodi fod Cofnod y Trafodion yn wych yn ei farn ef.

**Camau i'w cymryd: Gwen Parry**

Mynediad at wybodaeth HC(2)-05-06(p8)

Nododd yr Aelodau yr adroddiad.

Gweithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol HC(2)-05-06(p9)

Nododd yr Aelodau y papur.

## Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

Nododd yr Aelodau bod WAQ 46375 a gyflwynwyd i'w ateb ar 23 Mawrth 2006 wedi cael ei ddosbarthu eisoes.

## Unrhyw Fater Arall

Y system bleidleisio yn y Siambr

Dywedodd y Llywydd fod Jim Maynard, y sawl a gynlluniodd y system bleidleisio yn y Siambr, wedi cynnig rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

**Cytunodd yr Aelodau y dylid rhoi cyflwyniad ar ddechrau cyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

Cyfarfodydd Pwyllgor y Ty

Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau a oeddent yn fodlon i'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd unwaith bob pedair wythnos a defnyddio'r ail gyfarfod ar gyfer busnes brys dim ond os oes angen.

3.3

**Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig.**

Dywedodd Lorraine Barrett efallai y byddai'n bosibl defnyddio dyddiadau unrhyw ail gyfarfodydd nas cynhaliwyd ar gyfer cyfarfodydd yr Is-grwp Adeiladau.

Y Gwasanaeth Cyfieithu

Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth fer ar y posibilrwydd o ganiatáu i wasanaeth cyfieithu Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gyfieithu cyfarfodydd grwpiau'r Pleidiau yn hytrach na rhoi'r gwasanaeth ar gontract. Cyflwynir papur byr yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Cam i'w gymryd: Gwen Parry**

Mynediad i'r Siambr ar gyfer y cyhoedd

Bu'r Pwyllgor yn trafod mynediad i'r Siambr ar gyfer ymwelwyr y tu allan i oriau'r Cyfarfod Llawn.

Mynegodd Aelod bryder efallai y byddai ymwelwyr sy'n gorfod teithio'n bell i'r Cynulliad yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y Siambr cyn 11.00am. Fodd bynnag, pwysleisiodd swyddogion yr angen i brofi offer, fel y system bleidleisio a TGCh, cyn y Cyfarfod Llawn yn y prynhawn. Roedd pethau eraill hefyd yn destun pryder, fel ymwelwyr yn sefyll ar y cerflun neu'n defnyddio cadeiriau'r Aelodau.

**Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Is-grwp Adeiladau ystyried y mater.**

**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth**

Gadael ymwelwyr ar eu pen eu hunain

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Cadeirydd i beidio â gadael ymwelwyr ar eu pen eu hunain yn y Senedd na swyddfeydd y Cynulliad. Gofynnwyd i Diane Bevan ddosbarthu nodyn arall i atgoffa Aelodau'r Cynulliad o hyn.

**Camau i'w cymryd: Dianne Bevan**

3.4 Gwefan y Cynulliad

Dywedodd Jane Hutt ei bod am ddiolch i Gwen Parry, Brian Davidge a'u cydweithwyr am gydweithio ar lansiad gwefan newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar.

3.5 Lwfansau Aelodau

Dywedodd Peter Black nad yw lwfans staff dros dro ar gyfer absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth yn berthnasol i staff cymorth. Ceir polisi gwahanol hefyd ar gyfer staff y Cynulliad a staff cymorth. Gofynnwyd i Steven O’Donoghue ymchwilio i hyn ac i baratoi papur.

**Camau i'w cymryd: Steven O’Donoghue**

**4** Parlwr Te yr Aelodau

4.1 Dywedodd Nerys Evans y byddai parlwr te yr Aelodau yn swyddfa'r Cynulliad ar agor yr wythnos ddilynol. Bydd y parlwr te yn y Senedd ar gau ond rhoddir arwydd y tu allan i'r ystafell yn gofyn i'r Aelodau gysylltu â'r arlwywyr os ydynt am ei defnyddio.

**5**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 4 Mai 2006

**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**